


# Canllawiau Ariannu'r Loteri Genedlaethol

Grantiau Bach a Mawr

Hydref 2019



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cynnwys

Croeso.....	4
Cymhwyster – sefydliadau .....	5
Llywodraethu.....	5
Cymhwyster – unigolion .....	9
Felly rydych chi'n gymwys, beth am eich prosiect? .....	10
Rhaid cynnwys y canlynol yn eich cais .....	11
Ein cynllun corfforaethol.....	11
Rhaglenni ariannu .....	12
Cydraddoldebau .....	12
Llwybrau creadigol .....	13
Comisiynu, creu a chyflwyno .....	14
Cymru a'r byd .....	14
Plant a phobl ifanc.....	14
Y celfyddydau ac iechyd .....	15
Ehangu ymgysylltiad .....	15
Datblygu busnes.....	16
Uchafsymiau ariannu, canrannau ac amserlenni .....	17
Sut i ymgeisio a chysylltu â ni am gais.....	18
Hygyrchedd.....	20
1. Ymgeisio am arian .....	20
2. Rhedeg eich prosiect.....	20
3. Eich cynulleidfa/cyfranogwyr .....	20
Costau'r prosiect .....	21
Ffioedd artist .....	21
Costau nad ydym ni'n gallu eu talu .....	22
Cyfrifon banc – sefydliadau .....	23
Cyfrifon banc – unigolion.....	24
Rhestr wirio .....	25
Ffyrdd eraill o gysylltu â ni.....	26

## Croeso

Croeso i Ganllawiau Ariannu'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Grantiau Bach a Mawr Cyngor Celfyddydau Cymru.

Yn sgil ein hymgyngoriad eang ar strategaeth y Loteri Genedlaethol, rydym ni wedi adolygu a diwygio ein rhaglenni ariannu. Rydym ni wedi gwneud ein gorau i adlewyrchu eich adborth a gobeithio byddwch chi'n gweld y newidiadau.

Rydym ni wedi symleiddio ein canllawiau gymaint â phosibl i'w gwneud yn haws eu darllen a'u deall. Rydym ni'n gwybod bod llawer o wybodaeth yma ond mae'r cyfan yn werth ei ddarllen. Cofiwch os oes gennych gwestiynau, croeso ichi gysylltu â ni. Mae ein holl fanylion cysylltu yn y ddogfen yma.

## Cymhwyster – Sefydliadau

Y cwestiwn mawr...yn gyntaf, **ydych chi'n gymwys i ymgeisio?** Rydym ni'n ariannu **sefydliadau** ac **unigolion**. Os ydych chi'n **sefydliad**, darllenwch ymlaen. Os ydych chi'n **unigolyn**, ewch i dudalen [9](#).

Rydym ni'n ariannu sawl math ar sefydliad (rhagor am hyn nes ymlaen). Ond cyn ichi allu ymgeisio, rhaid inni sicrhau bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn ac yn gallu rheoli grant yn briodol. Un o'r ffyrdd rydym ni'n gwneud hyn yw sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion cymhwysedd. Ychydig o bethau allweddol sydd eu hangen arnom ar gyfer pob math ar sefydliad. **Rhaid** i'ch sefydliad:

- bod yng Nghymru, yn rhan arall o Brydain neu yn yr Undeb Ewropeaidd
- cael strwythur llywodraethu sy'n bodloni ein gofynion (gweler yr adran llywodraethu isod)
- cael cyfrif banc yn enw eich sefydliad sydd ag o leiaf dau berson sy'n gallu awdurdodi trafodion (gweler yr adran cyfrif banc [t.23](#))
- cael polisi cyfle cyfartal sydd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol
- peidio â bod yn ddiffygiol mewn unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru
- peidio â chael unrhyw ofynion hwyr ar unrhyw arian arall gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Os yw eich prosiect yn cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed, rhaid ichi hefyd gael:

- polisi diogelu/amddiffyn plant sydd wedi'i adolygu gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol

Nid yw'n ofyniad cymhwyster fel y cyfryw, ond os ydych chi'n bwriadu cyflwyno rhagor nag un cais, rhaid ichi sicrhau bod gan eich sefydliad y gallu i gyflawni'n effeithiol waith ar gyfer sawl prosiect a nodi hyn yn glir yn eich cais.

### Llywodraethu

Rhaid inni sicrhau bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n iawn.

Os nad ydych chi erioed wedi ymgeisio inni am arian o'r blaen:

- rhaid ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu wrth gyflwyno'ch cais

Os ydych chi wedi ymgeisio inni o'r blaen:

- rhaid ichi gynnwys copi wedi'i lofnodi o'ch dogfen lywodraethu os nad ydych chi wedi'i chyflwyno inni yn ystod y **ddwy flynedd** ddiwethaf, neu os ydych chi wedi'i **diweddar** ers ichi ymgeisio ddiwethaf

Mae'r tabl isod yn nodi'r mathau ar sefydliadau rydym ni'n gallu eu hariannu a beth hoffem ni ei weld yn eich dogfennau llywodraethu. Os nad yw eich math ar sefydliad yn y rhestr, neu os nad ydych chi'n siŵr a yw eich sefydliad yn gymwys, cysylltwch â'n tîm grantiau a gwybodaeth.

Strwythur y sefydliad	Gofynion llywodraethu
<p>Cwmni cyfyngedig drwy warant</p> <p>Sefydliad elusennol corfforedig</p> <p>Cwmni buddiannau cymunedol</p> <p>Ymddiriedolaeth elusennol</p>	<p>Rhaid i'r sefydliad gael o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd ac nad ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael ei lofnodi gan o leiaf ddau ymddiriedolwr</li> <li>• cael eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau</li> <li>• nodi bod cyfarfodydd bwrdd rheolaidd i'w cynnal</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer penderfyniadau</li> <li>• cynnwys cymal diddymu neu glo asedau priodol (gweler isod am esboniad)</li> </ul>
<p>Cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau</p>	<p>Rhaid i'r sefydliad gael o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd ac nad ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael ei lofnodi gan o leiaf ddau ymddiriedolwr</li> <li>• cael eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau</li> <li>• nodi bod cyfarfodydd bwrdd rheolaidd i'w cynnal</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer penderfyniadau</li> </ul>

Strwythur y sefydliad	Gofynion llywodraethu
Cymdeithas anghorfforedig	<p>Rhaid i'r sefydliad gael o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd ac nad ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i ddogfennau llywodraethu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael ei lofnodi gan o leiaf ddau ymddiriedolwr</li> <li>• nodi bod bwrdd neu gorff llywodraethu yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer penderfyniadau</li> </ul> <p>cynnwys cymal diddymu neu glo asedau priodol (gweler isod am esboniad)</p>
Byrddau lechyd Prifysgolion Awdurdodau lleol Sefydliadau sy'n cael eu llywodraethu gan yr uchod	<p>Nid oes angen dogfennau llywodraethu ar gyfer y sefydliadau yma, ond rhaid inni weld llythyrau o gefnogaeth gan ddau uwch weithiwr.</p>
Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig  Partneriaeth gyfyngedig Partneriaethau	<p>Rhaid i'r sefydliad gael o leiaf 2 ymddiriedolwr nad ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd ac nad ydyn nhw'n byw yn yr un cyfeiriad</p> <p>Rhaid i gytundeb partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael ei lofnodi gan bob partner</li> <li>• nodi bod cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd i'w cynnal</li> <li>• cynnwys cworwm priodol ar gyfer penderfyniadau</li> <li>• cynnwys cymal diddymu priodol</li> </ul>
Partneriaethau band	<p>Rhaid i gytundeb partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael ei lofnodi gan bob partner Rhaid iddo hefyd fanylu ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• trefniadau ariannol eich band</li> <li>• sut mae penderfyniadau am y band yn digwydd</li> <li>• sut rydych chi'n rheoli offer grŵp</li> <li>• sut i reoli newid mewn aelodaeth a beth sy'n digwydd os bydd aelod yn ymadael</li> <li>• beth sy'n digwydd os byddwch chi'n chwalu'r band</li> <li>• sut rydych chi'n rheoli perchenogaeth recordiadau grŵp, cyhoeddi hawlfraint ac incwm</li> </ul> </li> </ul>

Strwythur y sefydliad	Gofynion llywodraethu
Corfforaethau statudol	Siaradwch â Swyddog y Cyngor cyn ymgeisio
Cymdeithasau tai	Defnyddiwch y tabl uchod i nodi eich strwythur
<p>Os ydych chi'n <a href="#">aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru</a>, rhaid ichi drafod eich prosiect gyda'ch swyddog arweiniol. Ni fyddwn ni'n rhoi ichi ffurflenni cais oni bai eich bod chi wedi trafod eich cais a'i fod wedi'i nodi yn eich cytundeb ariannu.</p>	
<h3>Diffiniadau</h3> <p>Dyma ein diffiniad o <a href="#">ymddiriedolwyr sy'n perthyn</a>:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• aelodau o'r teulu: mam, tad, brawd, chwaer, mab, merch, mam-gu/nain, tad-cu/taid</li> <li>• perthnasau drwy briodas: priod, mab/merch yng nghyfraith, mam/tad yng nghyfraith</li> </ul> <p>Mae <a href="#">cymal diddymu</a> yn disgrifio beth fydd yn digwydd i'r asedau sy'n weddill gan sefydliad (sy'n cynnwys arian ac asedau eraill) os yw'r sefydliad yn cael ei ddirwyn i ben neu'i ddiddymu.</p> <p>Rydym ni'n gofyn am gael cymal diddymu sy'n nodi y bydd unrhyw asedau sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i sefydliad arall sydd ag amcanion tebyg.</p> <p>Mae <a href="#">clo asedau</a> yn sicrhau bod asedau sefydliad (gan gynnwys unrhyw elw neu arian arall sydd dros ben o'i weithgareddau) yn cael eu defnyddio er budd y gymuned.</p>	

Nid oes rhaid i'ch sefydliad nodi'r celfyddydau yn yr amcanion yn ei ddogfen lywodraethu, ond byddem ni'n annog hyn yn gryf. Byddai'n rhoi sicrwydd ychwanegol inni o amcanion artistig y prosiect pan fyddwch chi'n ymgeisio.

Nid yw rhai sefydliadau yn gymwys i ymgeisio inni, gan gynnwys:

- adrannau o'r Llywodraeth
- ysgolion (ond edrychwch ar [Raglenni Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau](#))
- sefydliadau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd



## Cymhwyster – Unigolion

Ydych chi'n artist neu'n weithiwr celfyddydol? Os felly, dyma'r adran i chi.

I fod yn gymwys i ymgeisio fel unigolyn (sy'n cynnwys unig fasnachwyr ac unigolion sy'n masnachu fel busnes), rhaid ichi:

- gallu ymgeisio yn **enw cyfreithiol** yr unigolyn sy'n gwneud y cais
- cael cyfrif banc yn eich **enw cyfreithiol** (gweler yr adran am gyfrif banc [t.24](#))
- bod dros 18 oed ac yn byw yng Nghymru
- bod ar drywydd gyrfa artistig neu gael eich cyflogi'n broffesiynol yng nghelfyddydau Cymru (sy'n cynnwys ymarferwyr llawrydd)
- peidio â bod mewn addysg amser llawn yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol
- gallu darparu tystiolaeth o'ch hanes o hwyluso neu greu gwaith artistig i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd
- peidio â bod yn ddiffygiol mewn unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru
- peidio â chael unrhyw ofynion hwyr ar unrhyw arian arall gan Gyngor Celfyddydau Cymru

**Dim ond un grant rydych chi'n gallu ei gael gennym ar y tro.** Os ydych chi wedi cael arian prosiect gennym o'r blaen, bydd rhaid ichi fod wedi cyflwyno inni eich adroddiad cwblhau cyn ymgeisio eto. **Ni fyddwn ni'n rhoi ffurflen gais ichi oni bai eich bod wedi cyflwyno adroddiad diweddu eich prosiect blaenorol.**

Pan fyddwn ni'n ystyried eich **hanes**, byddwn ni'n edrych ar eich profiad hyd yma. Byddwn ni hefyd yn edrych ar faint eich prosiect, y partneriaid a'r mentoriaid dan sylw ac os mai dyma'r adeg gywir yn eich gyrfa i gyflawni'r fath brosiect. Mae gennym ddiddordeb yn **eich taith greadigol** a sut bydd y prosiect yn eich helpu i gyrraedd eich nod.

**Ni fyddwn ni'n ariannu unrhyw un sy'n gweithio ers llai na blwyddyn** na chwaith rhywun nad yw **wedi cael o leiaf un darn o waith wedi'i gynhyrchu, ei gyflwyno, ei gyhoeddi neu ei arddangos yn broffesiynol.** Rydym ni'n disgwyl gweld tystiolaeth o ymarfer proffesiynol yn sail i'ch gweithgarwch arfaethedig.

Gan ddibynnu ar eich prosiect, byddem ni'n disgwyl ichi ddangos bod gennych **bartner creadigol** yn rhan o'ch prosiect. Gallai hyn fod yn fentor neu gyfaill beirniadol neu'n sefydliad partner a fydd yn hyrwyddo eich prosiect a chyflwyno eich gwaith i gynulleidfaoedd. Byddwn ni'n gofyn rhagor o fanylion am y partner, felly rhaid ichi feddwl am hyn os nad ydych chi eto wedi nodi un.

## Felly rydych *chi*'n gymwys, beth am eich prosiect?

Rhaid cynnal eich prosiect yn bennaf yng Nghymru	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rydym ni'n gallu ystyried ariannu cyfle hyfforddi neu ddatblygu y tu allan i Gymru, os nad yw ar gael yma</li><li>• Rydym ni'n gallu ystyried ariannu hyd at 15% gost prosiect i alluogi teithio y tu allan i Gymru</li><li>• Rydym ni'n gallu ystyried ariannu rhywfaint o weithgarwch rhyngwladol fel rhan o brosiect ehangach gyda rhesymeg glir</li></ul>
Rhaid i'ch prosiect fod yn ychwanegol at eich rhaglen weithgarwch arferol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhaid iddo beidio â bod yn rhan o'ch gweithgarwch craidd na chynnwys costau craidd</li></ul>
Rhaid i'ch prosiect fod yn gyfyngedig o ran amser	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gyda dyddiad cychwyn a gorffen pendant. Caniatewch amser ychwanegol i chi eich hun os bydd angen ichi fynd i'r afael ag amodau ychwanegol</li></ul>
Rhaid ichi gael arian arall ar gyfer eich prosiect	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rydym ni'n disgwyl i ryw ganran o incwm eich prosiect ddod o ffynhonnell nad yw'n Loteri Genedlaethol. Mae rhagor o fanylion am hyn ar <a href="#">t.17</a></li></ul>

Os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar **lenyddiaeth**, cysylltwch â **Llenyddiaeth Cymru**, y cwmni cenedlaethol sy'n datblygu llenyddiaeth yma, i drafod sut i gael cymorth: [www.lenyddiaethcymru.org](http://www.lenyddiaethcymru.org) /029 20 47 2266/[post@lenyddiaethcymru.org](mailto:post@lenyddiaethcymru.org)

Os yw eich prosiect yn canolbwyntio ar **ffilm**, cysylltwch â **Ffilm Cymru**, yr asiantaeth genedlaethol i ddatblygu ffilm yma, i drafod sut i gael cymorth:

[www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com) / 029 21 679 369/[enquiries@ffilmcymruwales.com](mailto:enquiries@ffilmcymruwales.com)

Mae'r ddau sefydliad yma'n dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol ar ein rhan yn y meysydd penodol yma.

# Rhaid cynnwys y canlynol yn eich cais

## Ein cynllun corfforaethol

Rydym ni'n gwybod eich bod chi'n gymwys a bod eich prosiect yn gymwys. Dyma fanylion am y *math* ar brosiect rydym ni am ei ariannu.

Lle da i ddechrau yw ein cynllun corfforaethol newydd, *Er Budd Pawb*:  
[Cynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-23](#)

Dyma ddogfen sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer 2018-2023 a dangos sut rydym ni'n gweithio tuag at gyflawni ein nod o wneud y celfyddydau'n ganolog i fywyd a lles Cymru.

Mae gennym dri amcan clir:

1. hyrwyddo cydraddoldebau fel sylfaen ein hymrwymiad clir i ehangu a dyfnhau ein cyrraedd i bob cymuned ledled Cymru
2. cryfhau gallu a gwydnwch y sector gan alluogi talent greadigol i ffynnu
3. galluogi Cyngor y Celfyddydau i weithio'n fwy effeithiol gan gydweithio'n fwy dychmygus gyda phartneriaid tebyg ledled Cymru


**Rydym ni'n gwneud penderfyniadau ariannu ar sail pa mor dda mae'ch prosiect yn cyflawni un neu ragor o'r amcanion yma.**

Mae'r galw am arian yn uchel ac mae llawer o gystadleuaeth. Felly nid ydym ni'n gallu ariannu pob cais. Mae'n bwysig bod eich cais yn dangos yn glir sut mae'n cyflawni un neu ragor o'r amcanion yma.

Rydym ni'n teimlo'n angerddol am ddatblygu gwaith Cymraeg. Rydym ni hefyd am fuddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gallu a sgiliau artistiaid a gweithwyr sydd am weithio drwy'r Gymraeg. Bydd hyn yn allweddol i gyflawni nod Llywodraeth Cymru i godi nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050. Nid oes rhaglen ariannu benodol i'r gwaith yma, ond mae'r uchelgais yn cynnal gweithredu ein strategaeth.

## Rhaglenni ariannu

Rydym ni wedi dysgu bod cael 'meysydd' anhyblyg wedi golygu gorfod gwrthod ceisiadau rhagorol am nad ydyn nhw'n gweddu'n ddigon da â'r meysydd. Rhaid inni fod yn fwy agored a hyblyg. Felly os yw eich prosiect yn adlewyrchu un o'r wyth rhaglen ganlynol, byddwn ni'n derbyn eich cais. Byddai eich prosiect yn gallu cynnwys elfennau o sawl un o'r rhaglenni yma ond rhaid ichi **nodi un rhaglen sy'n adlewyrchu orau ddyheadau eich prosiect**.



## Cydraddoldebau

Dyma flaenoriaeth strategol sy'n allweddol inni. Efallai na fyddwch chi'n ymgeisio'n uniongyrchol am y rhaglen yma ond rydym ni'n disgwyl ichi ddangos yn eich cais sut rydych chi'n mynd i'r afael â'r cydraddoldebau.

Rydym ni am ddod o hyd i ffyrdd newydd o annog rhagor o bobl – ac ystod ehangach o bobl – i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt.

Mae ein hymchwil wedi dangos nad yw arian y Loteri Genedlaethol yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws llawer o gymunedau ac ardaloedd Cymru ar hyn o bryd. Rydym ni hefyd yn gwybod mai'r mwyaf difreintiedig yn aml yw'r cymunedau a'r ardaloedd yna. Hefyd nid yw llawer o bobl dalentog yno'n cael yr un cyfleoedd ag eraill. Rydym ni'n credu bod angen newid hyn.

Mae llawer o bobl â nodweddion gwarchoddedig hefyd yn cael eu tangynrychioli. Dyma'r naw grŵp o nodweddion gwarchoddedig yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaethau sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gredo
- rhywedd
- cyfeiriadedd rhywiol

Ar hyn o bryd, nid yw celfyddydau Cymru yn cyrraedd a chynnwys digon o bobl o'r grwpiau yma.

Mae'r bwlch i'w weld yn glir yn nifer isel y bobl anabl a phobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig sy'n creu a mwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Rydym ni'n pryderu am hyn ers peth amser ac rydym ni'n benderfynol o gefnogi rhagor o bobl o gefndiroedd mwy amrywiol i fwynhau'r celfyddydau a gweithio a chymryd rhan ynddynt. Rydym ni hefyd yn datblygu rhai mentrau penodol a fydd yn gyrru'r gwaith pwysig yn ei flaen. Byddwn ni'n rhoi gwybod ichi amdanynt wrth iddynt ymddangos.

## Llwybrau creadigol

Mae'r celfyddydau, y sector diwylliannol a'r diwydiannau creadigol ymysg y sectorau economaidd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru. Creadigrwydd yw un o'r sgiliau mae cyflogwyr yn galw amdanynt. Felly, bydd buddsoddi yn eich gwaith creadigol yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni. Lle rydym ni wedi nodi bylchau allweddol yn y ddarpariaeth, byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau eraill a phobl â diddordeb i fynd i'r afael â nhw. Nid y breintiedig yn unig sy'n cael gweithio yn y sector – rhaid cael cyfle cyfartal i bawb o ran cyflogaeth.

Yn y rhaglen waith yma rydym ni am gefnogi prosiectau sy'n gallu cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- **canolbwyntio ar ddatblygu gyrfa i weithwyr celfyddydol ac artistiaid**
- **darparu cyfleoedd i brentisiaethau a lleoliadau**
- **canolbwyntio ar raglenni arwain**

Rydym ni'n awyddus i gefnogi sectorau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a phobl â nodweddion gwarchoddedig i ffynnu a dod o hyd i waith cyflogedig.

## Comisiynu, creu a chyflwyno

Rydym ni'n gwerthfawrogi creu celfyddydau cyffrous ac o safon. Ers dechrau amser, mae artistiaid wedi ystyried, cwestiynu a chyfeirio sut mae diwylliant a chymdeithas yn datblygu. Felly, bydd buddsoddi yng ngwaith creadigol ein hunigolion, ein cwmnïau a'n cymunedau mwyaf talentog yn parhau i fod yn flaenoriaeth inni.

Dyma faes sydd angen ei ddatblygu'n bellach ac ymgynghori amdano'n fwy. Byddwn ni'n gweithio gyda'r sector dros y misoedd nesaf ar raglen fuddsoddi hirdymor. Felly, nes bydd y gwaith hwn wedi'i wneud erbyn Ebrill 2020, dyma'r math o brosiectau y byddwn ni am eu cefnogi:

- Gwyliau
- Ymchwil a datblygu
- Cynhyrchu
- Teithio cenedlaethol
- Cefnogaeth rhaglen

## Cymru a'r byd

Rydym ni am greu cyd-destun diwylliannol newydd sy'n meithrin dealltwriaeth a goddefgarwch rhyngwladol drwy ymgysylltu â'r cymunedau rhyngwladol amrywiol yng Nghymru. Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o gyfrannu at gysylltiadau diwylliannol a'u cyfoethogi. Bydd ailddiffinio ein perthynas ag Ewrop hefyd yn bwysig yn y blynyddoedd i ddod.

Mae dysgu oddi wrth ddiwylliannau eraill a dysgu sut i barchu a dathlu gwahanol ffyrdd o fyw yn bwysig iawn i sicrhau celfyddydau iach yng Nghymru. Rhaid inni hefyd sicrhau bod sefydliadau ac artistiaid yn barod ar gyfer y farchnad ac yn cael cyfleoedd i arddangos eu gwaith i farchnadoedd rhyngwladol.

Os mai ffocws rhyngwladol yn unig sydd gan eich prosiect, siaradwch â thîm **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru** : [www.wai.org.uk](http://www.wai.org.uk) /info@wai.org.uk/0845 8734900 gan ddewis opsiwn 3 ac yna opsiwn 1. Byddan nhw'n trafod y **gronfa cyfleoedd rhyngwladol** gyda chi.

Fel mae'n dweud ar dudalen [10](#), rydym ni'n gallu ystyried ariannu rhywfaint o weithgarwch rhyngwladol fel rhan o brosiect ehangach o gael rhesymeg glir.

## Plant a phobl ifanc

Byddwn ni'n cefnogi prosiectau celfyddydol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc mewn dwy ffordd. Y gyntaf yw drwy ein rhaglen dysgu creadigol. Mae hon wedi herio'r Llywodraeth i roi'r celfyddydau wrth wraidd cwricwlwm yr ysgol. Mae hefyd wedi ein herio ni i harneisio grym y celfyddydau i ailfywiogi'r diwrnod ysgol ac ailgynnau creadigrwydd athrawon. Os ydych chi'n ysgol neu'n ystyried prosiect sy'n cynnwys gweithgarwch gydag ysgol neu yn yr ysgol, siaradwch â'n tîm dysgu creadigol drwy'r celfyddydau i gael cymorth:

[www.dysgucreadigol.celf.cymru](http://www.dysgucreadigol.celf.cymru) / [dysgu.creadigol@celf.cymru](mailto:dysgu.creadigol@celf.cymru) \ 0845 8734 900 gan ddewis opsiwn 2

Yr ail ffordd yw drwy **ariannu prosiectau sy'n gwneud gwaith targedol gyda phlant a phobl ifanc mewn cymunedau.**

Rydym ni am ddatblygu talentau creadigol ein pobl ifanc a chreu amgylchedd lle mae modd cydnabod, ysbrydoli, meithrin a dathlu'r dalent yna. Rydym ni am i gynifer o bobl ifanc â phosibl yng Nghymru gredu bod y cyfle yno iddynt gyrraedd eu potensial, gan berfformio gyda'u cyfoedion ar y lefel uchaf a dathlu eu talentau creadigol. Yn anad dim, rydym ni am i bobl ifanc gael y cyfle i fwynhau gweithgarwch creadigol, perthnasol a chyffrous a chymryd rhan ynddo.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cefnogi prosiectau sy'n targedu plant difreintiedig, sydd wedi'u hanwybyddu ac sydd wedi ymwahanu oddi wrth hyfforddiant ac addysg y brif ffrwd. Nhw yw'r rhai mewn perygl o golli'r cyfleoedd sydd ar gael.

## Y celfyddydau ac iechyd

Mae'r celfyddydau'n rymus iawn o ran cefnogi iechyd personol a chymdeithasol. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr mewn cyrff iechyd megis y byrddau iechyd ac mae gennym femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Chyddfederasiwn y GIG yng Nghymru i hyrwyddo gwerth gweithgarwch creadigol i sicrhau gwell canlyniadau iechyd i Gymru, felly rydym wedi arian wedi ' i glustnodi i gefnogi prosiectau sy ' n helpu i gyflawni ' r nod hwn.

Ar gyfer sefydliadau yn unig y mae'r rhaglen hon. Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno gan sefydliadau mewn partneriaeth/consortium a rhaid iddynt gynnwys partner ym maes iechyd ac ym maes y celfyddydau.

Nid yw'r rhaglen hon ar agor yn barhaus, felly byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol pan fydd y ffenest ymgeisio wedi ei hagar a modd i chi felly gyflwyno cais. Fodd bynnag, byddwn yn falch o drafod eich prosiect gyda chi ar unrhyw adeg a'ch helpu i'w ddatblygu. Mynnwch gip ar [ein gwefan](#) os gwelwch yn dda er mwyn cael gwybod mwy am ein blaenoriaethau yn y maes hwn. Gallwch anfon e-bost atom - [celfyddydauaciechyd@celf.cymru](mailto:celfyddydauaciechyd@celf.cymru) – er mwyn cael rhagor o wybodaeth neu i gychwyn sgwrs am brosiect.

## Ehangu ymgysylltiad

I gynyddu nifer y bobl sy'n ymwneud â'r celfyddydau, rhaid inni newid canfyddiadau'r cyhoedd ohonynt gan gynnwys sut mae'r gwaith yn digwydd a phwy maen nhw'n ei gyrraedd. Ond nid niferoedd yw'r unig beth dan sylw. Mae pobl yn tueddu ystyried y celfyddydau'n rhywbeth i haenen fwyaf breintiedig ein cymdeithas yn unig. Rydym ni am newid hyn. Rydym ni am i ragor o bobl gymryd rhan weithredol yn y celfyddydau a gweithgarwch creadigol mewn ffyrdd newydd ac arloesol. Rydym ni eisiau cefnogi prosiectau sy'n ymestyn at y rhai nad ydyn nhw efallai'n gynulleidfaoedd traddodiadol i'r celfyddydau. Byddai hyn yn gallu bod drwy brosiectau cyfranogol. Bydd celfyddydau Cymru yn fwy cyffrous, cadarn a pherthnasol o gofleidio ysbrydoliaeth a phrofiadau trawstoriad o bobl amrywiol.

Rhaid inni weld cynrychiolaeth o boblogaeth ehangach Cymru yn mynychu'r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt ac yn gweithio ynddynt fel artistiaid, pobl gyflogedig neu aelodau bwrdd. Felly rydym ni wedi gosod targedau penodol yng nghynllun gweithredu ein strategaeth i'r cydraddoldebau sydd ar ein gwefan.

## Datblygu busnes

Rydym ni am annog pobl i greu celfyddydau cyffrous o safon. Un ffordd y byddwn ni'n gwneud hyn yw drwy **gefnogi prosiectau sy'n creu amgylchedd lle mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yn debycach o ffynnu**. Rydym ni am eich helpu i wella eich busnes a sicrhau bod eich gwaith yn berthnasol i gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Felly byddwch chi'n gallu cyrraedd cymaint o gwsmeriaid â phosibl a thrwy hynny eich cynnal eich hunain yn well.

Ein blaenoriaeth fydd eich cefnogi i ddeall pwysigrwydd llywodraethu da a meddu ar y sgiliau i fod yn barod am fuddsoddiad.

Rydym ni'n datblygu ein gwaith ar raglen Gwydnwch i sefydliadau nad ydyn nhw'n rhan o'r Portffolio. Bydd yn barod erbyn Ebrill 2020. Byddwn ni hefyd yn craffu ar sut i gefnogi ymarferwyr unigol i ddatblygu eu sgiliau busnes mewn ffordd fwy strwythuredig.

Yn y cyfamser, os oes gennych brosiect hoffech chi ei drafod gyda ni, cysylltwch â ni.



## Uchafsymiau ariannu, canrannau ac amserlenni

**Grantiau bach:** Rhwng £500 a £10,000  
**Grantiau mawr:** Rhwng £10,001 a £50,000

Y ganran uchaf o gostau cymwys eich prosiect rydych chi'n gallu ymgeisio amdani yw:

	Sefydliadau	Unigolion
Grant bach	80%	90%
Grant mawr	75%	90%

Ni fyddwch chi'n cael ymgeisio am grant mawr, hyd nes ichi lwyddo ymgeisio'n llwyddiannus am grant bach.

Nid oes **dyddiadau cau i grantiau bach**, ond rhaid ichi adael **o leiaf chwe wythnos waith** rhwng dyddiad cyflwyno eich cais a dyddiad dechrau eich prosiect.

Mae **dyddiadau cau penodol i grantiau mawr**. Rydym ni'n cyhoeddi'r dyddiadau cau ar ein gwefan. Rydym ni'n derbyn ceisiadau hyd at 5pm ar y dyddiad cau. Rhaid ichi adael **o leiaf naw wythnos waith** rhwng dyddiad cyflwyno eich cais a dyddiad dechrau eich prosiect. Os yw'r dyddiad dechrau'n rhy fuan, byddwn ni'n gwrthod eich cais.

**Rhaid i geisiadau fod yn gyflawn a byddwn ni'n gwrthod derbyn rhagor o wybodaeth ategol ar ôl ichi gyflwyno eich cais.**


Rhaid i weddill incwm eich prosiect beidio â dod o arian Cyngor Celfyddydau Cymru a rhaid i o leiaf 10% o incwm eich prosiect beidio â dod o arian y Loteri Genedlaethol.

Os ydych chi'n sefydliad, bydd **uchafswm o 10%** o'ch incwm yn dod o arian mewn nwyddau.

Mae rhagor am arian partneriaeth ac arian mewn nwyddau yn ein Nodiadau Cymorth wrth Ymgeisio.

## Sut i ymgeisio a chysylltu â ni am gais

Rydym ni am i'ch cais fod mor gryf â phosibl cyn ichi ei gyflwyno. Felly, rhaid ichi siarad â ni yn gyntaf cyn cael ffurflen gais. Mae'r siart llif yma'n disgrifio'r broses:



Mae dau gyfnod o drafod sy'n digwydd cyn inni roi ffurflen gais ichi:

- Os ydych chi'n cwestiynu:
  - a ydych chi'n gymwys
  - a yw eich prosiect yn cydweddu'n dda â'n hamcanion neu'n rhaglenni
  - neu os oes gennych ymholiad technegol am y broses ymgeisio
  - neu angen rhagor o wybodaeth gyffredinol am ein gwahanol raglenni,

cysylltwch â'n **Tim Gwybodaeth am Grantiau**. Byddwn ni'n gwneud ein gorau i ateb eich cwestiynau, archwilio pethau a chynnig arweiniad. Cysylltwch â'r fîm drwy'r ffurflen ymholiad ar-lein, drwy e-bostio [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru) neu ffonio 03301 242733 gan ddewis opsiwn 1, yna opsiwn 1.

Os ydych chi'n siŵr:

- eich bod yn gymwys
- a bod eich prosiect yn cydweddu'n dda â'n hamcanion ac yn un neu ragor o'n rhaglenni

cysylltwch â'n **fîm datblygu** i drafod eich prosiect yn bellach. Cysylltwch â'r fîm drwy'r ffurflen ymholiad ar-lein, drwy e-bostio [datblygu@celf.cymru](mailto:datblygu@celf.cymru), neu ffonio 03301 242733 gan ddewis opsiwn 1, yna opsiwn 4.

Ond ym mhob trafodaeth, cynhwyswch gymaint â phosibl o'r wybodaeth ganlynol yn eich e-bost:

- eich enw
- teitl eich prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- sut y bydd eich prosiect yn cyfateb i un neu ragor o'n hamcanion corfforaethol
- faint o arian rydych chi eisiau ymgeisio amdano
- lle bydd eich prosiect yn digwydd

Rydym ni'n defnyddio system ymgeisio ar-lein. Ar ôl i'n swyddogion gael gwybod eich bod chi a'ch prosiect yn gymwys a bod eich cynnig mor gryf â phosibl, bydd eich swyddog datblygu yn e-bostio ffurflen gais ichi. Bydd yn cynnwys dolen i'n system ymgeisio ar-lein lle byddwch chi'n cael creu cyfrif a/neu fewngofnodi i gyfrif sydd yno eisoes i weithio ar eich cais. Efallai hoffech chi rannu drafft o'ch cais gyda'ch swyddog i gael adborth cyn ei gyflwyno.

Hyd yn hyn felly rydym ni wedi nodi:

- **beth** rydym ni am ei weld yn eich cais
- **sut** i ymgeisio
- **â phwy** ddylech chi siarad
- **beth** sy'n digwydd i'ch cais

Yn eich sylwadau, roeddech chi am wybod rhagor am ein proses benderfynu. Er mwyn bod mor dryloyw â phosibl, dyma ragor am **bwy** sy'n rhan o'r broses a **sut** mae hyn yn digwydd.

Mae pob cais yn cael ei wirio'n drylwyr a'i asesu'n ofalus. Ar ôl derbyn cais, mae ein fîm gwasanaethau ariannu a buddsoddi yn gwirio sawl peth. Os yw unrhyw ddogfennau am eich cymhwyster (dogfen lywodraethol neu fanylion banc) ar goll, neu os yw eich dyddiad dechrau'n rhy gynnar, byddwch chi'n cael hyd at 5 diwrnod gwaith i ddatrys hyn cyn inni wrthod eich cais.

Un o'n rheolwyr portffolio sy'n cadeirio cyfarfodydd penderfynu. Mae paneli'n gallu cynnwys:

- swyddogion datblygu
- swyddogion gwybodaeth a grantiau
- cydweithwyr celfyddydol

sy'n dod o bob rhan o Gymru ac sydd ag amrywiaeth eang o arbenigedd.

**Byddwn ni'n asesu eich cais yn ôl ein meini prawf hysbys ac ansawdd eich cynnig artistig.**

# Hygyrchedd

Rydym ni am wneud yn siŵr nad oes rhwystrau i bobl sydd ag anghenion hygyrchedd ychwanegol (er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os oes gennych chi gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol).

Mae **tair** ffordd inni allu cynnig cymorth:

## 1. Ymgeisio am arian

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd a'ch bod yn ystyried ymgeisio, rydym ni'n gallu eich cefnogi yn ystod y broses. Er enghraifft, efallai fod gennych chi gyflwr sy'n eich rhwystro rhag disgrifio'n dda syniadau eich prosiect yn y ffurflen gais. Cysylltwch â'n fîm grantiau a gwybodaeth (manyllion ar dudalen 18) i drafod sut rydym ni'n gallu eich helpu.

## 2. Rhedeg eich prosiect

Os yw eich cais yn llwyddo, rydym ni'n gallu talu tuag at gostau hygyrchedd amdanoch chi, neu am unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu a chyflawni eich prosiect. Mae'r costau'n gallu cynnwys:

- dehonglydd
- gweithwyr cefnogi
- offer neu feddalwedd arbenigol

Nid ydym ni'n cynnwys eich costau hygyrchedd wrth bennu'r uchafswm rydych chi'n gallu ymgeisio amdano.

Er enghraifft: rydych chi'n ymgeisio inni am £10,000 i'ch prosiect a £500 yw eich costau hygyrchedd personol. Mae'r costau hygyrchedd yn **ychwanegol**, felly cost eich holl gais yw £10,500. Os yw eich costau hygyrchedd yn mynd â chi dros y trothwy uchaf, ni fydd angen ofyn inni am ganiatâd arbennig ar gyfer y costau ychwanegol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydych chi'n cyflwyno hyn yn ein Nodiadau Cymorth. Ond os ydych chi'n ansicr neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, trafodwch y rhain gyda'ch swyddog datblygu (manyllion ar dudalen 18).

## 3. Eich cynulleidfa/cyfranogwyr

Yng nghyllideb eich prosiect, mae adran ichi allu cynnwys eich costau hygyrchedd i wneud eich prosiect yn fwy hygyrch i'ch cynulleidfaoedd neu'ch cyfranogwyr. Mae rhagor o fanyllion am y math o gostau rydym ni'n gallu cyfrannu atynt yn ein Nodiadau Cymorth.

Yn ychwanegol at y cymorth uchod, mae modd ystyried cynllun y Llywodraeth, Hygyrchedd i Waith, sy'n gallu eich cefnogi os ydych chi'n anabl neu os oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sy'n ei gwneud hi'n anodd ichi weithio:

[www.gov.uk/access-to-work](http://www.gov.uk/access-to-work)

## Costau'r prosiect

### Ffioedd artist

Rydym ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n talu eich hun, ac aelodau o'ch fîm, yn iawn. Dylai eich prosiect gynnwys ffioedd i dalu am eich amser chi a'u hamser nhw. Mae ffioedd yn gallu bod hyd at 100% o wariant eich prosiect.

Ni fyddwn ni'n ariannu cais lle nad oes ffi ar gyfer chi eich hun neu eich cydweithwyr neu ddim ond ffi isel iawn, iawn sydd yn y gyllideb. Dylech chi gyfeirio at gyfraddau dyddiol/wythnosol yn ôl safonau diwydiant eich ymarfer a dylech chi o leiaf dalu cyfraddau lleiaf y diwydiant. Lle nad oes cyfraddau lleiafsymiol i'r diwydiant yn bodoli, byddwn ni'n disgwyl eich bod yn cyfeirio at y [Cyflog Byw Cenedlaethol](#) yn lleiafswm.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion undebau a sefydliadau cymorth sy'n gallu cynnig arweiniad am gyflogau a ffioedd lleiaf mewn diwydiant. Byddem ni'n eich cynghori i wirio'r cyfraddau lleiaf y diwydiant gyda'r sefydliad perthnasol. (Mewn rhai achosion dim ond aelodau llawn sy'n gallu gweld y cyfraddau hyn.)

Rydym ni wedi tynnu'r ffigyrau lleiafsymiol a oedd yn rhifyn cyntaf y Canllawiau i sicrhau mai dim ond y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf perthnasol sydd gennym o'r sefydliadau isod. Rydym ni hefyd wedi cynnwys dolen i Urdd Ysgrifenywyr Prydain am y bydd yn ddefnyddiol i rai ceisiadau.

Pwy/dolen	Ar gyfer
<a href="#">a-n</a>	Cwmni Gwybodaeth Artistiaid (i artistiaid gweledol)
<a href="#">AOP</a>	Cymdeithas Ffotograffiaeth
<a href="#">Bectu</a>	Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr (i staff technegol)
<a href="#">Ecwiti</a>	I actorion, cantorion a dawnswyr
<a href="#">ISM</a>	Cymdeithas Gorfforol y Cerddorion
<a href="#">itc</a>	Cyngor Theatr Annibynnol (i ymarferwyr theatr)
<a href="#">Undeb y Cerddorion</a>	Undeb i gerddorion
<a href="#">WGGB</a>	Urdd Awduron Prydain Fawr
<a href="#">Theatr Prydain</a>	I staff theatr a cherddorion

## Costau nad ydym ni'n gallu eu talu

Dyma nhw:

- gweithgareddau nad ydyn nhw'n ymwneud â'r celfyddydau
- Ffioedd neu taliadau banc, cyfreithiol, cyfrifyddu ac archwilio
- Gorbenion parhaus, er enghraifft, rhent a chyfleustodau
- Costau gofal plant
- Ffioedd rydych yn eu talu am gyngor a/neu help i gwblhau eich cais
- Gweithgareddau codi arian
- Costau lansio
- gwobrau, nwyddau, anrhegion, blodau, tân gwyllt a phyrotechneg eraill, digwyddiadau cystadleuol a digwyddiadau i hyrwyddo rhywbeth yn unig
- costau ôl-weithredol, sef gweithgarwch sydd eisoes wedi digwydd, neu unrhyw gostau rydych chi wedi'u talu neu gytuno i'w talu (drwy lofnodi contract neu gyflwyno archeb er enghraifft), cyn inni wneud penderfyniad ar eich cais a'ch bod wedi derbyn ein cynnig o grant. Os ydych chi'n hysbysebu neu hyrwyddo eich prosiect cyn hyn, ar eich menter eich hun rydych chi'n ei wneud. **Nid ydym ni'n gallu ariannu prosiectau sydd eisoes yn gwerthu tocynnau**
- cyrsiau israddedig neu rai ôl-radd llawn amser neu ran-amser mewn sefydliadau addysg bellach neu uwch. Hefyd, nid ydym ni'n gallu cefnogi hyfforddiant unigol, gwersi na hyfforddiant galwedigaethol
- costau mae unigolion yn eu cael wrth arwain ar brosiectau cyfranogol, megis gweithdai neu weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed. Fel arfer rydym ni'n ariannu sefydliadau sydd â gweithdrefnau diogelu priodol, cyfredol i gyflawni'r fath waith. Mae gweithgarwch felly'n gallu bod yn rhan o'ch prosiect wrth gwrs, ond nid ydym ni'n gallu ariannu'r elfen yma. Felly peidiwch â'i chynnwys yng nghyllideb eich prosiect.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid ydym ni'n gallu ariannu costau arlwygo. Ond rydym ni'n **gallu ariannu costau rhesymol am brydau bwyd/lluniaeth**, lle bo rhesymeg glir, **i brosiectau cyfranogol sy'n cynnwys plant a phobl ifanc lle byddai peidio â chynnig bwyd yn effeithio'n negyddol ar lefel fynychu'r prosiect.**

## Cyfrifon Banc – Sefydliadau

Rhaid inni archwilio'r ochr ariannol, felly byddwn ni'n gofyn ichi am dystiolaeth o'ch cyfrif banc. Ni fyddwn ni'n derbyn eich cais heb y wybodaeth yma. **Gofynnir i chi gynnwys y wybodaeth hon gyda'ch cais bob tro y byddwch chi'n ymgeisio i ni am arian.**

Wrth gyflwyno eich cais, rhaid ichi gynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn enw eich sefydliad gyda thystiolaeth o ddau berson o leiaf ('llofnodwyr') sy'n gallu awdurdodi trafodion.

Rhaid inni gael y dystiolaeth i brofi:

- bod y cyfrif yn enw eich sefydliad
- bod o leiaf ddau berson yn gallu awdurdodi trafodion
- rhif y cyfrif
- y cod didoli

Rhaid i'r dystiolaeth fod:

- llai na 2 flwydd oed ar ddyddiad y cais
- cyfathrebiad swyddogol oddi wrth y banc, er enghraifft:
  - lluniau o bob cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enwau pob llofnodwr - enw, rhif a chod didoli'r cyfrif. (Nid yw pob cerdyn banc yn dangos yr holl wybodaeth yma. Os nad yw eich cerdyn chi'n ei wneud, rhaid inni gael gwybodaeth ychwanegol sy'n cysylltu eich sefydliad â manylion y cyfrif)
  - llythyr neu e-bost sy'n dangos yn glir ei fod wedi'i anfon gan eich banc sy'n cadarnhau'r wybodaeth yma
  - Cipluniau o'r sgrin o bob llofnodwr sydd wedi mewngofnodi i'r cyfrif banc ar-lein ac sy'n arddangos ei enw gyda'r wybodaeth am gyfrif banc y sefydliad

Efallai y bydd angen ichi gynnwys sawl dogfen i sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei chysylltu'n glir â manylion y cyfrif.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn ni'n gwirio'r wybodaeth drwy ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn ni'n talu unrhyw grant ichi hyd nes inni gael a gwirio'r wybodaeth yma.

**Ond:**

- ni fyddwn ni'n derbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio gyda llyfr pas yn unig
- ni fydd angen i gyrff statudol (megis awdurdodau lleol, cynghorau tref, byrddau iechyd neu brifysgolion) ddarparu'r wybodaeth yma - ond rhaid i fanylion y cyfrif fod yn enw'r sefydliad neu'r awdurdod lleol

Os nad ydych chi'n siŵr a yw eich gwybodaeth yn bodloni ein gofynion o ran tystiolaeth fancio, e-bostiwch atom beth sydd gennych: [buddsoddiacariannu@celf.cymru](mailto:buddsoddiacariannu@celf.cymru) a byddwn ni'n rhoi cyngor pellach ichi.

## Cyfrifon Banc – Unigolion

Rhaid inni archwilio'r ochr ariannol, felly byddwn ni'n gofyn ichi am dystiolaeth o'ch cyfrif banc. Ni fyddwn ni'n derbyn eich cais heb y wybodaeth yma. **Gofynnir i chi gynnwys y wybodaeth hon gyda'ch cais bob tro y byddwch chi'n ymgeisio i ni am arian.**

Wrth gyflwyno eich cais, rhaid ichi gynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sy'n cyfateb i'r enw sydd ar eich cais. Ni fyddwn ni'n derbyn cais dan enw llwyfan, er enghraifft.

Rhaid inni gael y dystiolaeth i brofi:

- bod y cyfrif yn eich enw cyfreithiol
- rhif y cyfrif
- y cod didoli
- bod cyfeiriad deiliad y cyfrif banc yng Nghymru

Rhaid i'r dystiolaeth fod:

- llai na 2 flwydd oed ar ddyddiad y cais
- cyfathrebiad swyddogol oddi wrth y banc, er enghraifft:
  - lluniau o'r cerdyn banc ar gyfer y cyfrif sy'n dangos enw, rhif a chod didoli'r cyfrif
    - os nad yw eich enw i'w weld ar y cerdyn, rhaid ichi roi gwybodaeth ychwanegol sy'n eich cysylltu chi â'r cyfrif
  - llythyr neu e-bost sy'n dangos yn glir ei fod wedi'i anfon gan eich banc sy'n cadarnhau'r wybodaeth yma
  - ciplun o'r sgrin sy'n dangos eich bod wedi mewngofnodi i'ch cyfrif banc ar-lein ac sy'n dangos eich enw a manylion o'ch cyfrif banc

Efallai y bydd angen ichi gynnwys sawl dogfen i sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei chysylltu'n glir â manylion y cyfrif.

Os bydd eich cais yn llwyddo, byddwn ni'n gwirio'r wybodaeth yma drwy ofyn ichi ddarparu rhagor o fanylion am eich cyfrif. Ni fyddwn ni'n talu unrhyw grant ichi hyd nes inni gael a gwirio'r wybodaeth yma.

**Ond:**

- ni fyddwn ni'n derbyn cyfrifon cymdeithas adeiladu sy'n gweithio gyda llyfr pas yn unig
- ni fyddwn ni'n derbyn cyfrifon ar y cyd

Os nad ydych chi'n siŵr a yw eich gwybodaeth yn bodloni ein gofynion o ran tystiolaeth fancio, e-bostiwch atom beth sydd gennych: [buddsoddiacariannu@celf.cymru](mailto:buddsoddiacariannu@celf.cymru) a byddwn ni'n rhoi cyngor pellach ichi.



## Rhestr wirio

Dyma gynnwys rhestr wirio i'ch helpu:

- ydych chi'n gymwys?
- oes gennych y dogfennau perthnasol? (gwybodaeth banc, dogfennau llywodraethu os oes angen)
- ydych chi wedi nodi un (neu ragor) o'n hamcanion corfforaethol sy'n adlewyrchu gweithgarwch eich prosiect?
- ydych chi wedi nodi o leiaf un brif raglen lle byddai eich prosiect yn addas?
- ydych chi wedi siarad â'r fîm grantiau a gwybodaeth a/neu'r fîm datblygu?
- ydych chi wedi cael ffurflen gais drwy e-bost?

Os ydych chi'n gallu ateb yn gadarnhaol bob cwestiwn uchod, rydych chi'n awr yn barod i lenwi eich cais. Am ragor o fanylion am sut i lenwi eich ffurflen gais, darllenwch ein Nodiadau Cymorth. Ond cofiwch os nad ydych chi'n siŵr neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â ni (manylion ar dudalen 18).

## Ffyrdd eraill o gysylltu â ni



03301 242733



9am-5pm Llun-lau  
9am-4.30pm Gwener



[www.celf.cymru/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni](http://www.celf.cymru/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni)



[Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales](#)



[@Celf\\_Cymru](#)



[celfcymruarts](#)